





# Gweinidogion Trwyddedig Newydd
# Rhaglen 2024




















ATHROFA **PADARN** SANT
ST **PADARN'S** INSTITUTE

TROSOLWG O'R RHAGLEN ... 3
AMLINELLIAD O GYFNOD CRAIDD Y CWRS ... 5
Cyrsiau'r Flwyddyn Gyntaf ... 5
Cynhadledd Hanner Diwrnod Hyfforddi Gweinidogion / Goruchwylwyr (Goruchwylwyr) ... 5
Sgyrsiau Bwriadol ... 5
Deinameg Tîm ... 5
Datblygiad Plant, Pobl Ifanc, Teuluoedd ac Ysgolion ... 5
Dod yn Offeiriad yn Eglwys Duw ... 6
Cyrsiau'r Ail Flwyddyn ... 6
Cenhadaeth, Efengylu a Chreu Cymunedau Cristnogol Newydd ... 6
Trawsnewid Gwrthdaro o Fewn Eglwysi ... 6
Datblygu fel Arweinydd ... 7
AMLINELLIAD O'R CWRS ARWEINYDDIAETH FWRIADOL ... 7
Cyrsiau'r Drydedd a'r Bedwaredd Flwyddyn ... 7
AMSERLEN ... 8
DISGWYLIADAU FFURFIANNOL AR GYFER GWEINIDOGAETH DRWYDDEDIG ... 9
A. Hyder, Sicrwydd a Ffydd Aeddfed ... 9
B. Gweithio fel rhan o dîm ... 10
C. Creadigol, Hyblyg a medru Ymaddasu ... 11
CH. Wedi eu gwreiddio mewn Eglwysoleg Anglicanaidd ac Ysbrydolrwydd ... 11
D. Cenhadol ac wedi ymrwymo i Dyfu fel Disgybl ... 12
Dd. Arweinwyr Strategol a Thywyswyr ... 13
MANYLION CYSWLLT ... 16

## TROSOLWG O'R RHAGLEN

Athrofa Padarn Sant, sy'n darparu hyfforddiant a chymorth pellach i Weinidogion Trwyddedig Newydd, a'u goruchwylwyr, gan gyflwyno hyfforddiant parhaus ar ffurf Datblygiad yn y Weinidogaeth. Mae'r dudalen hon yn amlinellu'r cyrsiau sydd ar gael i Weinidogion Trwyddedig Newydd.

Mae'r cyfnod hyfforddi ar gyfer Gweinidogion Trwyddedig Newydd yn cynnwys dwy flynedd o Hyfforddiant CRAIDD i bob Gweinidog Trwyddedig newydd a hyd at ddwy flynedd o ARWEINYDDIAETH FWRIADOL i Weinidogion cyflogedig a'r rheiny a fydd â swyddi o awdurdod uwch. Mae'r hyfforddiant CRAIDD yn debyg i bob Gweinidog Trwyddedig, waeth beth yw'r weinidogaeth drwyddedig/ordeiniedig. Fodd bynnag, mae'r cyfnod hyfforddiant ARWEINYDDIAETH FWRIADOL i Weinidogion Trwyddedig Newydd yn canolbwyntio'n bennaf ar arweinyddiaeth, cyflwyno gweledigaeth, cydnerthedd, cynllunio strategol a pharatoi a galluogi eraill.

Disgwylir i bob Gweinidog Trwyddedig, boed yn weinidog lleyg neu'n ordeiniedig, fod yn ymrwymedig i'w datblygiad parhaus i wasanaethu Duw a'r gymuned drwy'r eglwys. Dylai Gweinidogion Trwyddedig Newydd gael y cymorth, y wybodaeth a'r anogaeth i ffurfio arfer da a byw bywyd sy'n llawn ffydd, gobaith a chariad. Mae'n bwysig felly bod gweinidogion yn dechrau'r rhaglen i Weinidogion Trwyddedig newydd a pharodrwydd i:

1. Fod yn ddarostyngedig (bod yn agored).
2. I allu gwrando a gwrando'n astud.
3. Ofyn cwestiynau da.
4. Greu diwylliant lle mae'n dderbyniol i wneud camgymeriadau.

Yn y flwyddyn gyntaf, bydd un penwythnos preswyl a dau gwrs preswyl dau ddiwrnod, canol wythnos yn rhan o'r hyfforddiant. Bydd penwythnos ychwanegol hefyd ar gyfer y rhai sy'n cael eu hordeinio'n Offeiriaid ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf.

Yn yr ail flwyddyn bydd cyfnod preswyl penwythnos, cyfnod preswyl pedair diwrnod yng nghanol yr wythnos (i weinidogion cyflogedig a'r rhai hynny sydd angen y cwrs hir ac mae yna hefyd gwrs 2 ddiwrnod dros Zoom i weiniodgion digyflog) bydd yn dod i ben

gyda cyfnod preswyl tri diwrnod yng nghanol yr wythnos- bydd y cyfnod preswyl olaf hwn yn gorffen CYFNOD CRAIDD hyfforddiant i Weinidogion Trwyddedig Newydd.

Rydym yn cydnabod bod cyrsiau preswyl yng nghanol yr wythnos yn dreth ar amser a bod angen i rai o'n gweinidogion aberthu amser o'u dyletswyddau eraill er mwyn gallu mynychu. Er mwyn cael cydbwysedd rydym wedi sicrhau bod ein hyfforddiant yng nghanol yr wythnos o'r safon orau posibl. Cyflwynir y cyrsiau gan 3D Coaching (https://www.3dcoaching.com) a Bridge Builder Ministries (https://www.bbministries.org.uk) yn y flwyddyn gyntaf a Lead Acaemy (https://leadacademy.net) a Bridge Builders yn yr ail flwyddyn. Mae'r cyrsiau hyn am ddim i Weinidogion Trwyddedig Newydd. Gallwch wneud cais am gostau teithio ar gyfer y digwyddiadau y mae'n rhaid i chi eu mynychu fel rhan o'ch hyfforddiant parhaus, ond mae angen gwneud cais am y rhain i'ch Plwyf neu Ardal Genhadaeth/Gweinidogaeth yn hytrach nag Athrofa Padarn Sant. Rydym yn cydnabod fod angen gymaint o gefnogaeth a phosib ar Weinidogion Trwyddedig yn ystod y cyfnod CRAIDD. Rydym yn argymell cyfarfodydd rheolaidd â chyfarwyddwr ysbrydol / mentor neu gyfarfodydd grŵp cymheiriaid sy'n cwrdd yn rheolaidd. Lle nad oes gan NLM fynediad i unrhyw ffurf arall o gefnogaeth, mae disgwyl iddyn nhw barhau i fod yn rhan o'u cell ffurfiannol.

Darperir cymorth ychwanegol i Weinidogion Trwyddedig Newydd a'u goruchwylwyr drwy Amgylchedd Dysgu Rhithwir Athrofa Padarn Sant, sef Moodle. Mae gan bob Gweinidog Trwyddedig Newydd a Goruchwylydd, fynediad at ystod o ddeunyddiau, gan gynnwys rhestrau gwirio cymwyseddau, templedi ffurflenni a chanllaw cytundeb dysgu. Wrth gwrs, rwyf i a Veronica Cottam ar gael I rhoi adborth a chefnogaeth pan fo angen.

Yn wahanol i'r cyfnod CRAIDD, mae'r cyrsiau ARWEINYDDIAETH FWRIADOL yn orfodol i Weinidogion Cyflogedig yn unig. Gall NLM's eraill fynychu ond dim ond os oes ganddyn nhw ganiatâd gan ei hesgob neu Gyfarwyddwr Gweinidogaeth. Er hyn byddwn yn disgwyl y byddai'r rheiny sy'n debygol o ddal swydd gydag arweinyddiaeth sylweddol i fynychu. Caiff y cyfnod hwn ei gyflwyno a'i harwain gan y Lead Academy https://www.leadacademy.net/.

Parch Ddr Mark Griffiths, Deon Meithrin Disgyblion

# AMLINELLIAD O GYFNOD CRAIDD Y CWRS

## Cyrsiau'r Flwyddyn Gyntaf

### Cynhadledd Hanner Diwrnod Hyfforddi Gweinidogion / Goruchwylwyr (Goruchwylwyr)

Mae'r cwrs hwn yn edrych ar yr hyn y gellir ei ddisgwyl gan Oruchwylwyr a'r rhai sy'n cael eu hyfforddi.  Mae hefyd yn ymchwilio i'r hyn a gyflenwir yn ystod diwrnodau hyfforddi Gweinidogion Trwyddedig Newydd Athrofa Padarn Sant a'r hyn y disgwylir iddo gael ei ddysgu mewn Ardaloedd Cenhadaeth/Gweinidogaeth.

### Sgyrsiau Bwriadol

Mae dau faes -pobl a chyfathrebu yn allweddol i ni. Mae'r cwrs hwn yn trafod creu sgyrsiau a helpu pobl i fwrw ymlaen. Bydd yn trafod gweithio gyda phobl a sut i gael y gorau o sgyrsiau â phobl sydd ar lefel uwch na ni, y rheiny sy'n gymheiriaid, a'r rheiny rydym ni'n eu gweinidogaethu.

### Deinameg Tîm

Mae'r cwrs hwn i Weinidogion Trwyddedig Newydd a'u goruchwylwyr ar y cyd. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn bwrpasol ddatblygu timau gweinidogaeth, ac mae'r cwrs hwn yn trafod deinameg gweithio ag eraill. Yn y lle cyntaf, wrth helpu Gweinidogion Trwyddedig Newydd a'u goruchwylwyr i weithio gyda'i gilydd, ond hefyd wrth drafod theori strwythurol.  Bydd y cwrs yn archwilio sut rydym ni'n rhyngweithio ag amrywiaeth eang o bobl- ac yn aml â phobl sy'n wahanol iawn i ni.

### Datblygiad Plant, Pobl Ifanc, Teuluoedd ac Ysgolion

Cyflwynir y cwrs hwn gan amryw o Swyddogion Plant ac Ieuenctid yr Esgobaeth,  Mark Griffiths a Scripture Union.  Mae'n rhannu'r weledigaeth ar gyfer ysgolion eglwys ac yn rhannu adnoddau defnyddiol I wneud cysywllt gyda ysgolion lleol, yn ogystal â rhoi cyngor ar sut I gynhyrchu gwasanaethau gwych / addoli ar y cyd



tra hefyd yn datblygu rhaglenni I blant a bobl ifanc a gwasnaethau I bob oed. Rydym hefyd yn archwilio darpariaethau megis Llan llanast a grwpiau plant bach. Mae'r cwrs hwn yn ymarferol dros ben.

### Dod yn Offeiriad yn Eglwys Duw

Cyflwynir y cwrs gan Rhiannon Johnson, Cyfarwyddwr Gweinidogaeth yn esgobaeth Tyddewi a Mark Griffiths,I'r rheiny sydd ar fin cael ei gwneud yn offeiriaid. Mae'n edrych ar Swyddogaeth Gweinidog heddiw a beth yw ystyr bod yn Eglwys Sacramentaidd.

## Cyrsiau'r Ail Flwyddyn

### Cenhadaeth, Efengylu a Chreu Cymunedau Cristnogol Newydd

Cynhelir y cwrs gan Mones Farah, sef Archddiacon Cymunedau Cristnogol Newydd Esgobaeth Tyddewi, a gwestai a wahoddwyd i gymryd rhan yn y broses o ddatblygu Cymunedau Cristnogol Newydd, yn arbennig yng nghyd-destun Cymru. Mae'r cwrs yn archwilio'r broses o sefydlu eglwysi, Cymunedau Cristnogol Newydd a Modelau o Eglwysi Datblygol. Mae'r cwrs hwn hefyd yn edrych ar y cyfleoedd a roddir i'r eglwys drwy Ddigwyddiadau Bywyd (bedydd, bedydd esgob, priodasau ac angladdau).

### Trawsnewid Gwrthdaro o Fewn Eglwysi

Cynhelir y cwrs hwn gan Bridge Builder Ministries ac mae'n canolbwyntio ar drawsnewid gwrthdaro o fewn lleoliadau eglwysig. Mae'r cwrs hwn yn gosod y sylfeini er mwyn dod o hyd i ffordd adeiladol o fynd i'r afael â gwrthdaro mewn cyd-destun Cristnogol. Mae'n archwilio'r syniad chwyldroadol bod gwrthdaro yn rhywbeth arferol ac anochel yn ôl y Testament Newydd! Mae yna dau fersiwn gwahanol o'r cwrs hwn. I weinidogion cyflogedig a'r rhai hynny syddwedi cytuno I wneud y cwrs hir, bydd y cwrs yn gyfnod preswyl 4 diwrnod. I eraill bydd yn gwrs 2 ddiwrnod drwy gyfrwng Zoom.



### Datblygu fel Arweinydd

Y cwrs hwn yw’r olaf yn y cyfnod hyfforddiant CRAIDD i Weinidogion Trwyddedig Newydd. Caiff ei ddarparu gan Lead Academy ac mae’n archwilio dulliau pellach o sut y gallwn baratoi a galluogi pobl Duw i wasanaethu gan ddefnyddio gwahanol ddulliau arwain a rheoli timau.

## AMLINELLIAD O’R CWRS ARWEINYDDIAETH FWRIADOL

### Cyrsiau'r Drydedd a'r Bedwaredd Flwyddyn

Bydd y rhai sy’n Weinidogion Cyflogedig yn parhau i’r cyfnod Arweinyddiaeth Fwriadol sy’n cynnwys pedwar chwrs hyfforddi arall, dros gyfnod o ddwy flynedd. Cynlluniwyd y cyrsiau ychwanegol hyn i wneud y broses o bontio i’r swydd â’r cyfrifoldeb cyntaf mor hawdd â phosib. Mae’n debyg y bydd y cyfnod arweinyddiaeth fwriadol dechrau pan fyddwch ar fin symud a pharhau drwy eich cyfnod cychwynnol mewn lleoliad newydd. Lead Academy (https://leadacademy.net/) fydd yn cyflwyno’r cyrsiau hyn ac mae hefyd yn cynnig rhaglen ymgynghori/datblygu ar gyfer eich tîm lleol pe dymunech dderbyn y cynnig hwn.

Nid oes unrhyw hyfforddiant gorfodol arall os nad ydych yn Weinidog Cyflogedig. Fodd bynnag, gall Gweinidogion nad ydynt yn rhai Cyflogedig ddilyn cyrsiau Arweinyddiaeth Fwriadol ochr yn ochr â Gweinidogion Cyflogedig. Bydd angen i chi siarad â’ch Esgob neu Gyfarwyddwr y Weinidogaeth i ystyried yr opsiwn hwn yn fanwl a chael caniatâd.

Gobeithio bod y llyfryn hwn yn ganllaw defnyddiol i chi wrth ddechrau ar y rhaglen Gweinidog Trwyddedig Newydd fel rhan o’ch gweinidogaeth. Mae croeso i chi anfon e-bost ataf fi neu Veronica Cottam, Cydlynydd Dysgu Gydol Oes Athrofa Padarn Sant os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y rhaglen Gweinidogion Trwyddedig Newydd.



| AMSERLEN | Trwddedwyd yn 2024 | Trwddedwyd yn 2023 | Trwddedwyd yn 2022 | Trwyddedwyd yn 2021 |
|---|---|---|---|---|
| 2024 | | | | |
| 9 – 11 Chwefror (penwythnos) Aberystwyth | | Datblygiad Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ac Ysgolion | Cenhadaeth Efengyliaeth a Chymunedau Cristnogol Newydd | |
| 19 - 20 Mawrth (canol wythnos) Llandrindod | | | | Lead Academy Rhan 2 |
| 17 - 19 Mai (penwythnos) Padarn Sant | | Dod yn Weinidog yn Eglwys Duw | | |
| 15, 22 Mai neu 4 Mehefin (½ Diwrnod) Caerfyrddin, Caerdydd, Bangor | Hyfforddi Gweinidogion / Goruchwylwyr dros NLM's newydd | | | |
| 24 - 26 Mehefin (canol wythnos) Wrecsam [2] | | | Datblygu fel Arweinydd | |
| 5 - 6 Medi (canol wythnos) Padarn Sant | Sgyrsiau Bwriadol | | | |
| 9 – 10 Medi (canol wythnos) Llandrindod | | | | Lead Academy Rhan 3 o 3 |
| 11 – 12 Medi (canol wythnos) Llandrindod | | | Lead Academy **Rhan 1 o 4** | |
| 9 – 10 Hydref (canol wythnos) Zoom (Gweinidogion Digyflog ,Darllenwyr, Gweinidogion Lleyg Trwyddedig) [3] | | Trawsnewid Girdhar Eglwysig (ar-lein) | | |
| 14 – 17 Hydref (canol wythnos) Bangor (Gweinidogion Cyflogedig)[3] | | Trawsnewid Gwrthdaro Eglwysig | | |
| 18 - 19 or 25 - 26th Tachwedd (canol wythnos) Padarn Sant [4] | Deinameg Tîm Gweinidogion (Trwyddedig Newydd a Goruchwylydd) | | | |

1 Bydd Goruchwykwyr yn dewis pa sesiwn rhan-o'r dydd y byddwn yn mynychu

2 Dyma'r digwyddiad hyfforddi olaf i weinidogion digyflog heblaw'r rheiny sydd â chaniatâd yr Esgob i fynychu. Bydd gweinidogion cyflogedig a'r rheiny sydd wedi cael cais gan ei Hesgob i fynychu yn parhau â'r Cyfnod Arweinyddiaeth Fwriadolgyda Lead Academy.

3 Fe nodwyd bod y lefel o wrthdaro yn yr Eglwys fydd yn wynebu'r rheiny mewn swyddi o gyfrifoldeb uwch (yn nodweddiadol Gweinidogion Cyflogedig) yn debygol o fod yn fwy sylweddol na'r rheiny nad oes ganddynt gyfrifoldebau uwch yn yr eglwys. O ganlyniad, byddwn yn cynnal dwy fersiwn wahanol o gwrs Trawsnewid Gwrthdaro yn yr Eglwys. Bydd un yn cael ei gynnal dros gyfnod o bum diwrnod mewn canolfan preswyl, a'r un arall am gyfnod o ddau ddiwrnod drwy gyfrwng Zoom.

4 Bydd NLMs yn dewis pa un o'r dyddiadau y byddant yn mynychu. Mae NLMs yn mynychu gyda'i goruchwyliwr.

## DISGWYLIADAU FFURFIANNOL AR GYFER GWEINIDOGAETH DRWYDDEDIG

- Yn ystod y cam dirnadaeth, arddangos tystiolaeth o *botensial* o'r rhinweddau a'r egwyddorion hyn.
- Yn ystod y cam trwyddedu / ordeinio arddangos *tystiolaeth* o'r rhinweddau a'r egwyddorion hyn.
- Wrth symud i swydd o gyfrifoldeb uwch, dangos tystiolaeth o *arweinyddiaeth* yn un o'r categorïau hyn, a'r gallu i hyfforddi, ysbrydoli ac arwain eraill gan gynnwys unigolion, timau, eglwysi ac ardaloedd gweinidogaeth / cenhadaeth.

### A. Hyder, Sicrwydd a Ffydd Aeddfed

Yn ystod y cam trwyddedu neu ordeinio, bydd ymgeiswyr yn medru siarad yn onest am eu perthynas parhaus â Duw, eu bywyd gweddïo eu hastudiaethau Beiblaidd a'u ffydd ym mhŵer yr Ysbryd Glân. Byddant yn medru myfyrio yn hyderus, pwy ydyn nhw yng Nghrist a beth y gallan nhw gyfrannu i'r Eglwys, ac i'r gymdeithas, ynghyd a'u lle yn y ddau. Byddan nhw wedi arddangos lefel da o ddeallusrwydd emosiynol drwy gydol eu cysylltiadau yn ystod eu hyfforddiant. Byddan nhw'n gallu cyfathrebu sut mae'r hyder hwn ym mhwy ydyn nhw yng Nghrist yn eu alluogi nhw i fod yn greadigol yn eu gweinidogaeth, ac i gymryd risgiau, a pheidio bod ofn methiant. Byddan nhw'n gallu mynegi sut mae eu ffydd, wedi ei hysbrydoli gan astudiaethau diwinyddol, asudiaethau Beiblaidd, a gweddi, wedi eu galluogi nhw drwy adegau anodd ac ar adegau o lawenydd yn eu bywyd.

Ar ddiwedd y broses Gweinidogion Trwyddedig Newydd, bydd gweinidogion yn arddangos ffydd aeddfed y gallant ei fynegi. Ffydd a gefnogir gan batrwm-sefydledig o ddefosiwn personol sy'n eu cadw'n iach yn ysbrydol ac yn cynnal gwytnwch. Byddan nhw wedi datblygu lefel uchel o ddeallusrwydd emosiynol a sgiliau da gyda phobl. Byddan nhw'n deall ac yn gallu rheoli gwrthdaro a gwrthwynebiad. Byddan nhw'n rheoli eu

perthynas personol a phroffesiynol gyda dealltwriaeth o ffiniau. Drwy esiampl bersonol ac ymgysylltu pwrpasol byddan nhw'n gallu cyfrannu at ddatblygiad eraill / arwain datblygiad eraill ym maes 'hyder, sicrwydd a ffydd aeddfed'

### B. Gweithio fel rhan o dîm

Ar y cam trwyddedu / ordeinio dylai ymgeiswyr allu arddangos brwdfrydedd ar gyfer gweithio mewn tîm a'r gallu iach ag onest i fyfyrio ar brofiadau anodd yn ogystal â phrofiadau cadarnhaol am weithio ag eraill. Bydd ganddyn nhw wybodaeth gywir o'r sgiliau a'r gallu maen nhw'n dod i dimau, yn ogystal â bod yn ymwybodol o'i ffaeleddau a'u gwendidau wrth weithio ag eraill. Elfen bwysig o'i hyfforddiant fyddai ymdrin â rhai o'r ffaeleddau a'r gwendidau hyn, ac mi fyddan nhw'n medru trafod yn agored am le maen nhw ar y daith hon. Byddan nhw wedi dysgu hefyd sut i fod yn effeithiol wrth ymdrin â pherthnasoedd anodd. Byddan nhw wedi myfyrio ar ei rôl hwy mewn gwrthdaro yn y gorffenol a sut maen nhw wedi dysgu am eu hunain a sut y gallan nhw wedi ymdrin a sefyllfaoedd anodd mewn ffordd gwell. Byddan nhw hefyd yn medru tystiolaethu ymrwymiad i ddatblygu perthnasoedd iach.

Ar ddiwedd y broses Gweinidogion Trwyddedig Newydd, bydd gweinidogion â dealltwriaeth o werth a phwysigrwydd gweithio mewn tîm ac wedi eu hymrwymo'n llawn, yn ymarferol yn ogystal â mewn gair, i'r ffaith bod yr Eglwys yn gweld cenhadaeth a gweinidogaeth fel gweithgareddau tîm. Byddan nhw wedi datblygu dealltwriaeth gwirioneddol ddwfn o'r sgiliau a'r gallu maen nhw'n dod i'w timau, a'r meysydd sydd angen cymorth arnynt gan gryfderau eraill. Byddan nhw wedi datblygu gallu clir i weithio mewn a (chyfrannu at arweinyddiaeth / (arwain) timoedd o weinidogion a phobl leyg. Drwy esiampl bersonol ac ymgysylltu bwriadol byddan nhw yn gallu (cyfrannu at) / (arwain) datblygiad gweithio fel tim i eraill.

### C. Creadigol, Hyblyg a medru Ymaddasu

Ar y cam  trwyddedu neu ordeinio bydd ymgeiswyr wedi arddangos fod ganddyn nhw'r sgiliau a'r cymeriad i allu gweinidogaethu mewn cymdeithas sy'n newid yn gyson, a'r gallu i ymaddasu a bod yn greadigol. Byddan nhw yn ddysgwyr parhaus ac wedi arddangos brwdfrydedd i ddysgu. Byddan nhw wedi arddangos hyder a pharodrwydd i drio pethau newydd. Byddan nhw hefyd dangos brwdfrydedd dros  rannu eu ffydd mewn ffyrdd sy'n cysylltu â rheiny sy'n byw'n eu cymunedau. Bydd eu gwytnwch a'u gobaith wedi ei harddangos yn eu taith hyfforddi, y broses dirnadaeth, drwy eu cysylltiadau a'u hymgysylltu. Byddan nhw wedi arddangos y gallu i weithio tu hwnt i'r hyn maen nhw'n gyffyrddus gydag ac i drio heriau newydd. I'r rheiny sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth arloesol nodweddiadol bydd ganddyn nhw brofiad o ddechrau / cynnal prosiectau.

Ar ddiwedd y rhaglen i weinidogion Trwyddedig Newydd bydd gweinidogion yn deall yr amrywiaeth ddiwylliannau y maen nhw'n gweinidogaethu, ac mi fyddan nhw'n hyblyg ac yn medru ymaddasu wrth lunio'r ffyrdd orau i rannu'r efengyl a datblygu Cymuned o fewn y diwylliant hwnnw.  Byddan nhw wedi arddangos y neu ymarfer eu bod nhw'n parhau i ddysgu ar ôl trwyddedu. Bydd pob un ohonyn nhw wedi datblygu ac arddangos y gallu i arloesi mentrau / prosiectau newydd mewn ymateb i'r anghenion a'r cyfleoedd o'i hamgylch. Bydd y rheiny sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth arloesol nodweddiadol wedi arddangos eu gallu i ddechrau a chynnal cymunedau addoli newydd. Drwy esiampl bersonol ac ymgysylltu bwriadol byddan nhw yn gallu (cyfrannu at) / (arwain) eraill i ddod yn fwy creadigol, hyblyg a gallu ymaddasu.

### CH. Wedi eu gwreiddio mewn Eglwysoleg Anglicanaidd ac Ysbrydolrwydd

Ar y cam trwyddedu neu ordeinio bydd ymgeiswyr wedi ennill cymhwyster priodol mewn diwinyddiaeth ac yn medru siarad yn ystyrlon ac yn apelgar am sut mae eu hastudiaethau diwinyddol wedi eu helpu nhw i dyfu yn eu ffydd. Byddan nhw yn medru siarad yn

ddeallus am y Beibl, a'r hanes, eglwyseg a'r traddodiadau sy'n sail i fywyd yr Eglwys yng Nghymru. Byddan nhw yn medru arddangos eu bod yn gallu troi at ddyfnderoedd gweddi Anglicanaidd ac ysbrydolrwydd i gryfhau a chefnogi eu bywyd fel gweinidog. Byddan nhw wedi arddangos eu bod yn ddisgybledig mewn gweddi ddyddiol, addoli, astudiaethau ac encil. Bydd ganddyn nhw agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg, ac yn achos ymgeiswyr llawn-amser, byddan nhw wedi dilyn camau i allu gweinidogaethu yn litwrgaidd yn rhannol yn Gymraeg, ac yn gallu defnyddio ychydig o Gymraeg mewn sefyllfaoedd bugeiliol. Byddan nhw'n hyderus ac yn gallu arwain gwahanol ffurfiau o addoliad, ynghyd â chyfathrebu'r ffydd. Os ydyn nhw'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth pregethu , byddan nhw wedi datblygu'r gallu i bregethu mewn modd clir ac apelgar.

Erbyn diwedd y broses Gweinidogion Trwyddedig Newydd bydd y rheiny sydd yn cael eu hordeinio yn hyderus wrth arwain sacramentau Bedydd a'r Ewcharist. Bydd gan bob gweinidog y gallu i arwain addoliad mewn modd sy'n meithrin cyfarfyddiad â Duw, a chynyddu cynulleidfa. Byddan nhw'n gallu troi at, ac ymgorffori cyfoeth o weddi Anglicanaidd a litwrgi i gyfoethogi'r cynulleidfaoedd maen nhw'n eu harwain. Byddan nhw'n gyfathrebwyr hyddysg a hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac i'r rheiny o bob oed a gallu. Bydd y rheiny mewn gweinidogaeth pregethu wedi datblygu dull cyfathrebu goleuol, credadwy o bregethu ac wedi datblygu eu pregethu mewn ymateb i adborth. Bydd ein holl weinidogion yn gallu mynegi, modelu ac addysgu'r pum marc o genhadaeth Anglicanaidd. Drwy esiampl bersonol ac ymgysylltu bwriadol byddan nhw'n (cyfrannu at) / (arwain) eraill wrth iddyn nhw ddyfnhau eu hysbrydolrwydd.

### D. Cenhadol ac wedi ymrwymo i Dyfu fel Disgybl

Ar y cam trwyddedu neu ordeinio bydd ymgeiswyr wedi arddangos eu bod nhw'n wynebu tuag allan, a meddwl cenhadol ac a brwdfrydedd dros rannu ffydd gyda phobl arferol ardraws ein cenedl, mewn amrywiaeth o ffyrdd. Byddan nhw wedi arddangos yn

eu ffordd eu hun yr egni a'r awydd i ymgorffori eu ffydd, sydd yn fwy o symudiad na sefydliad. Byddan nhw yn esbonio'r ffydd yn bersonol, mewn modd deniadol, ac yn llysgenhadon da i Grist. Byddan nhw wedi arddangos ymrwymiad i weld twf yn yr Eglwys yng Nghymru ac ymwybyddiaeth ddatblygedig o ffactorau fydd yn helpu neu niweidio hyn, wedi ei seilio ar astudiaethau yn ogystal â phrofiad personol.

Erbyn diwedd y broses Gweinidogion Trwyddedig newydd, bydd gweinidogion yn weithredol wrth ddod i hyd i gyfleoedd i rannu eu ffydd ac mi fyddan nhw a'r gallu i fynegi eu perthynas bersonol a Christ. Byddan nhw yn deall sut i arwain eraill yn briodol i le o ymrwymiad, ac i gefnogi datblygiad cychwynnol ffydd ac ymgorfforiad i'r Eglwys. Byddan nhw'n deall deinamig y broses o efengyliaeth a'r wahanol ffyrdd i weld twf yn yr Eglwys. Byddan nhw wedi arddangos ymrwymiad i weithgaredd tu hwnt I waliau'r eglwys. Bydd y rhai hynny sy'n paratoi ar gyfer swydd cyflogedig â chyfrifoldeb uwch, a phrofiad o brosiectau ymgysylltu cymunedol gan gynnwys rhannu ffydd bersonol, ac yn gwybod sut i osod amcanion priodol ar gyfer gweld twf Eglwys mewn niferoedd, ac mewn ysbrydolrwydd. Drwy esiampl bersonol a drwy ymgysylltiad bwriadol byddan nhw'n gallu helpu eraill i ddod o hyd i ffyrdd i rannu eu ffydd ac i gefnogi unigolion sy'n newydd i'r gymuned Gristnogol.

### Dd. Arweinwyr Strategol a Thywyswyr

Ar y cam trwyddedu neu ordeinio dylai fod ymgeiswyr wedi arddangos y gallu i arwain eraill, a gyda'r capasiti i ysbrydoli ymddiriedaeth a ffyddlondeb mewn eraill maen nhw'n gweithio gyda hwy. Tra bo'r arweinyddiaeth y gelwir hwy iddi yn amrywiol o ran maes a chwmpas, bydd pob ymgeisydd ar gyfer y weinidogaeth angen arddangos dewrder, gwytnwch a'r gallu i ysbrydoli eraill. Byddan nhw wedi galluogi ac annog aelodau o'r gynulleidfa yn eu taith fel disgyblion, yn eu gweinidogaeth, ar sut i weithio mewn timau iach. Byddan nhw'n deall pwysigrwydd gweithredu gyda strwythurau trosolwg.

Ar ddiwedd y cam Gweinidogion Trwyddedig Newydd bydd pob gweinidog yn gallu esbonio beth a olygir gan weinidogaeth drosolwg  a'r cryfderau penodol a'r doniau y maen nhw'n cyfrannu at arweinyddiaeth. Byddan nhw'n cydnabod eu bod yn arweinwyr cymunedol ac yn cydnabod y defnydd priodol o bŵer sydd yn dod â'r cyfrifoldeb hwnnw, a hefyd yn cydnabod pryd mae'r pŵer hynny'n cael ei gamddefnyddio. Bydd ganddyn nhw ymrwymiad diamheuol i atebolrwydd, tryloywder a chyfrinachedd mewn lleoliadau priodol. Byddan nhw'n deall pwysigrwydd  llywodraethiant a strwythurau cyllid ac yn gallu gweithio gyda nhw'n effeithiol.  Byddan nhw wedi arddangos y gallu i rwydweithio ag eraill a dangos ymrwymiad a brwdfrydedd dros ddatblygu gallu eraill maen nhw'n gweithio gyda hwy. Bydd eu dull arweinyddiaeth yn ymdebygu'r hyn mae pobl yn adnabod fel y ffordd y byddai Duw yn arwain ei bobl. Byddan nhw wedi myfyrio ar sut gallan nhw gyfrannu arweinyddiaeth 'o'r ail gadair'.  Bydd gweinidogion cyflogedig wedi arddangos y gallu i oruchwylio timau o bobl amrywiol, meddwl yn strategol, datblygu a rhannu gweledigaeth, dechrau a goruchwylio prosiectau, adeiladu timau ac adnabod a datblygu doniau eraill. Drwy esiampl bersonol ac ymgysylltu pwrpasol byddan nhw'n (cyfrannu at) / (arwain) datblygiad arweinyddiaeth a doniau eraill.




## MANYLION CYSWLLT

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â ni ar:**

Mark.Griffiths@stpadarns.ac.uk neu

Veronica.Cottam@stpadarns.ac.uk

Athrofa Padarn Sant, 54 Heol Caerdydd, Caerdydd, CF5 2YJ

Telephone: 02920 563 379

Mae Athrofa Padarn Sant yn rhan o Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru

Rhif Elusen Gofrestredig: 1142813